# Geiriau ar Gynfas – partneriaeth rhwng Llenyddiaeth Cymru a Chelfyddydau Anabledd Cymru

## Galwad agored:

## Cyfle gyda thâl i Awduron ac Artistiaid/Darlunwyr Anabl i gynnal a chysgodi prosiect cyfranogi llenyddol

## Cefndir

Mae [cyfranogi](), a chymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol yn benodol, yn un o dri prif feydydd gwaith Llenyddiaeth Cymru. Ein nod yw cynyddu mynediad at ac effaith ysgrifennu creadigol ar gyfranogwyr yng Nghymru er mwyn **ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol** drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd llenyddol.

Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a gweddnewid bywydau, a'r angen i gynnal gweithgareddau lle y byddant yn cael yr effaith mwyaf, rydym wedi nodi **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** fel un o'n tair Blaenoriaeth Dactegol. Nid math o weithgaredd yw hyn, ond yn hytrach thema a gaiff ei gynnwys ym mhopeth yr ydym yn ei gyflawni, gan gynnwys ein gwaith-ar-y-cyd a'n gwaith hwyluso. Trwy sicrhau cynrychiolaeth deg ar draws ein gweithgareddau ân strwythurau mewnol, rydym yn darparu llwyfannau ac anogaeth i leisiau sy'n cael eu tangynrychioli, a thrwy hynny'n meithrin diwylliant llenyddol sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes.

Rydym yn falch iawn o gydweithio gyda **Celfyddydau Anabledd Cymru** i wahodd mynegiannau o ddiddordeb gan awduron ac artistiaid/darlunwyr sydd ag anabledd neu salwch (corfforol neu feddyliol) i ddatblygu a darparu prosiect cyfranogi llenyddol gydag

unigolion B/byddar neu unigolion anabl yng Nghymru, o fis Medi 2020 ymlaen.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael?

Mae dau gyfle gwahanol, gyda thâl, ar gael fel rhan o'r prosiect hwn.

**Ymarferydd Creadigol**

Rydym yn chwilio am Ymarferydd Creadigol i greu a rhedeg prosiect gydag unigolion B/byddar neu unigolion anabl o fis Medi 2020 ymlaen. Mae ffi o **£150 ar gyfer pob gweithdy**, gydag **uchafswm o £1,350** ar gyfer y prosiect cyfan.

Mae hyn yn cynnwys:

- Rhedeg dau weithdy cychwynol (tua hanner diwrnod yr un) i arbrofi gyda syniadau, ymarferion gweithdai ac i ymgynghori gyda'r cyfranogwyr
- Creu pecyn adnodd neu becyn prosiect yn seiliedig ar themâu'r gweithdai
- Datblygu prosiect creadigol hir-dymor ar gyfer grŵp o gyfranogwyr, i'w gynnal dros gyfres o 4-6 gweithdy

**Mae'r ffi hwn yn cynnwys yr holl dreuliau gan gynnwys TAW a chostau teithio.**

Bydd yr Ymarferydd Creadigol:

- Yn fodlon a gyda'r gallu i ymrwymo i ddatblygu'r prosiectau yn unol â'r gyllideb a drafodwyd a chytunwyd arno gyda Llenyddiaeth Cymru
- Gyda phrofiad o weithio gydag unigolion B/byddar neu unigolion anabl
- Yn gallu cydweithio gydag ymarferwyr creadigol eraill er mwyn sicrhau llwyddiant
- Gyda pheth profiad o redeg gweithdai cyfranogi llenyddol
- Yn meddu ar wiriad DBS (manwl) cyfredol (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori)
- Yn gallu rhedeg y gweithdai dros blatfform ar-lein megis Zoom (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori)

**Cyfle Cysgodi gyda thâl**

Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau gan egin awduron, artistiaid neu ddarlunwyr a fyddai'n elwa o hyfforddiant a phrofiad ychwanegol cyn ymgeisio ar gyfer cyfle tebyg i'r Ymarferydd Creadigol. Bydd y cyfle

cysgodi hwn yn gyfle i ddysgu gan ymarferydd creadigol profiadol yn ystod gweithdai.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cysgodi ymarferydd creadigol profiadol mewn gweithdy llenyddol
- Cyfrannu tuag at syniadau a gweithgareddau creadigol y gweithdy
- Cynnal gweithgaredd gwerthuso byr ar ddiwedd y sesiwn

Bydd yr egin awdur, artist neu ddarlunydd:

- Yn fodlon a gyda'r gallu i ymrwymo i fynychu'r holl weithdai
- Yn ymrwymo I ddysgu gan artistiaid profiadol
- Yn ymddiddori mewn datblygu gweithdai cyfranogi llenyddol
- Yn meddu ar wiriad DBS (manwl) cyfredol (gall Llenyddiaeth Cymru gynghori)
- Yn gallu cael mynediad at weithgaredd ar-lein

Mae ffi per diem o **£50 y diwrnod, hyd at uchafswm o £300,** ar gyfer y cyfle hwn. Mae'r ffi hwn yn cynnwys yr holl dreuliau gan gynnwys TAW a chostau teithio.

## Sut i wneud cais

Cliciwch yma i ymgeisio am y cyfle hwn. Bydd modd dewis pa un o'r ddau gyfle yr hoffech ymgeisio ar ei gyfer.

Nodwch os gwelwch yn dda, y bydd angen i chi:

1. Gwblhau ffurflen gais fer a ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Gallwch ateb y cwestiynau yn y ffurflen gais neu uwchlwytho fideo byr (2 funud o hyd)

2. Atodi CV syml, sy'n nodi profiadau a/neu diddordeb berthnasol

3. Gadael i ni wybod am unrhyw anghenion mynediad sydd gennych chi

Byddwn yn **cadw'r holl geisiadau ar ffeil am 24 mis**, ac o bosib yn gwahodd artistiaid **i fynegi diddordeb neu i ddarparu dyfynbris** ar gyfer gwaith arall tebyg yn ystod y cyfnod hwnnw.

### Dyddiad Cau i Fynegi Diddordeb:

### 12.00 hanner dydd ar ddydd Iau 3 Medi 2020

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu **dethol a'u cadarnhau erbyn dydd Mercher 16 Medi.** Caiff yr artistiaid eu dethol gan banel o swyddogion celfyddydol o Llenyddiaeth Cymru a Disability Arts Cymru ar sail profiad, argaeledd a pha mor addas ydynt ar gyfer y prosiect.

## Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awdyron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Rydym yn hwyluso, yn ariannu ac yn cynnal rhaglen o weithgareddau llenyddol ar draws Cymru.

Mae ein Cynllun Strategol ar gyfer 2019-2022 yn amlinellu Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb fel un o'n blaenoriaethau tactegol. Dylai awduron Cymru gynnwys ystod o oedrannau, o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd, ethnigedd, rhyw, ardaloedd ac ieithoedd. Nid cau unrhyw un allan yw'r bwriad yma, ond yn hytrach greu cyfleoedd teg a chyfartal, a sicrhau fod datblygiad proffesiynol ac arloesedd celfyddydol ar gael i bawb.

## Celfyddydau Anabledd Cymru

Mae Celfyddydau Anabledd Cymru yn elusen sy'n gweithio i roi pobl anabl yn ganolog i gelfyddydau Cymru trwy geisio lleihau'r heriau sy'n gwneud hynny'n anodd ar hyn o bryd. Rydym yn cefnogi artistiaid anabl ac yn hyrwyddo eu gwaith, yn gweithio gyda chwmnïoedd a lleoliadau celfyddydol i'w cynorthwyo i fod yn fwy cynhwysol ac yn defnyddio Celfyddydau i herio canfyddiadau pobl o anabledd.

Rydym yn defnyddio ac yn hyrwyddo 'model anabledd cymdeithasol'. Golygai hyn ein bod yn credu mai agwedd negyddol, gwaharddiad a heriau eraill yw'r prif broblemau ar gyfer pobl anabl, nid problemau meddygol.

Rydym yn fudiad aelodaeth sy'n rhoi llwyfan a chyfleoedd i artistiaid anabl gan weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau celfyddydol er mwyn canfod ffyrdd newydd o gynnwys artistiaid anabl oddi fewn i'r sector celfyddydol. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth, yn rhannu cyfleoedd ac yn dod ag artistiaid ynghyd I drafod eu profiadau.

Rydym yn datblygu ein gwaith i fod yn fwy hygyrch i artistiaid sy'n gweithio trwy'r Iaith Gymraeg.

Rydym wrth ein boddau o gael gweithio gyda Llenyddiaeth Cymru ar y prosiect cyffrous hwn, a'r cyfleoedd gwych i artistiaid anabl.

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch: post@dacymru.co.uk / www.disabilityartscymru.co.uk